

Eisteddfod yr Urdd , Rhyddiaith –398 , Blwyddyn 12 a 13 – ‘Breuddwyd’ Beirniad – Lis Williams

Gwaith un ymgeisydd, sef Rhosyn, ddaeth i law.

Ar y darlleniad cyntaf, yn ôl y disgwyl oherwydd natur y testun, cafwyd disgrifiad byw a chyffrous o freuddwyd gas, ddryslyd, ond ychwanegwyd at y stori, gyda thro yn ei chynffon, yn y paragraff olaf, wrth gyfeirio at y dryswch a’r llanast sydd yn ein hwynebu yn ein byd cythryblus ni heddiw:

“Rydm ni’n hapus i freuddwydio, ac anghofio’r gwirionedd: bod ein byd ni’n marw ac rydyn ni’n caniatu hyn.”

Mae dychymyg yr awdur yn cael ei atgyfnerthu yn yr arddull – defnydd da o ansoddeiriau, a berfau addas sy’n cyfleu’r cyffro a’r ing. Ar y cyfan, mae’r laith yn lân iawn. Ceir yma fân frychau, ond nid ydynt yn tarfu ar y cyfanwaith. Mwynheuais ei darllen, a gobeithio y deil yr awdur ati i ysgrifennu’n greadigol. Mae Rhosyn yn wir haeddu’r wobr gyntaf. Llongyfarchiadau!